*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Asesiad Drafft o Berfformiad yr Awdurdod 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i gael cymeradwyaeth yr Aelodau, asesiad drafft o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2018/19 mewn perthynas â'r canlynol:

(i) ei Amcanion Gwella a Llesiant a'i Amcanion Cydraddoldeb; a

(ii) ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd cynnydd da ei wneud tuag at Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod drwy lwyddo, yn ystod 2018/19, i gyflawni deg o'r un ar ddeg o gamau a gynlluniwyd. Yn anffodus, cafodd y cam gweithredu yn ymwneud â monitro effeithiolrwydd rhaglenni peilot ei rwystro gan fod prosiect peilot y Tîm Cymorth Cymunedol wedi dod i ben yn annisgwyl ym mis Mai 2018.

3 Parhawyd i wneud cynnydd cyson yn ystod 2018/19 tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod ar gyfer 2016-20.

4 Unwaith y bydd dyletswydd yr Awdurdod i gyhoeddi gwybodaeth berthnasol wedi cael ei chyflawni drwy gyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol erbyn diwedd mis Medi 2019, bydd yr Awdurdod wedi cydymffurfio â phob un o Safonau'r Gymraeg a oedd yn berthnasol iddo yn 2018/19.

**ARGYMHELLIAD**

5 Bod yr Aelodau'n gwneud y canlynol:

(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2018/19 (yn amodol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen), i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi 2019; a

(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi taflen i'w dosbarthu'n gyffredinol, sy'n rhoi crynodeb o elfennau allweddol yr asesiad cyn diwedd Rhagfyr 2019.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, rhaid i'r Awdurdod rhoi cyfrif cyhoeddus o'i berfformiad, ei gynnydd a'i gydymffurfiaeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol:

i. mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol ac yn symud Cymru yn nes at gyflawni ei hamcanion llesiant. Ar ôl gosod yr amcanion tymor hir, rhaid i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac i adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol am y cynnydd a wnaed ganddo.

ii. mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion gwella, a'i fod yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad, bob blwyddyn erbyn 31 Hydref, am y flwyddyn ariannol flaenorol.

iii. mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn mynnu bod Awdurdodau Tân ac Achub yn llunio cynllun cydraddoldeb strategol ac yn adrodd bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ynghylch y cynnydd a wnaed ganddo tuag at gyflawni'r cynllun hwnnw yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

iv. nid oes raid mwyach i'r Awdurdod ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg, ond rhaid iddo, drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chyhoeddi adroddiad bob blwyddyn erbyn 30 Medi ynglŷn â'i gydymffurfiaeth â'r Safonau hynny.

8 Er hwylustod, mae'r cynnydd mewn perthynas â phob un o'r pedwar gofyniad deddfwriaethol a nodir uchod wedi cael eu cyfuno mewn un ddogfen adrodd i'w chyhoeddi erbyn y cynharaf o'r dyddiadau terfynol statudol, sef 31 Medi 2019.

**GWYBODAETH**

9 Mae rhannau agoriadol yr adroddiad ar yr Asesiad o Berfformiad Blynyddol eleni (Atodiad 1) yn cyflwyno gwybodaeth am ddemograffeg a daearyddiaeth ardal yr Awdurdod. Mae hyn yn darparu cyd-destun er mwyn iddo fod yn haws deall yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru. Disgrifir hefyd waith yr Awdurdod i gefnogi llesiant cymunedau Gogledd Cymru.

10 Mae rhan ganol adroddiad yr asesiad yn darparu cyfrif manwl o'r camau penodol a gymerodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i gyflawni ei ddau Amcan Gwella a Llesiant tymor hir. Gan ymateb i'r argymhellion a gafwyd yn ddiweddar gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae mwy o bwyslais wedi cael ei roi ar gynnwys astudiaethau achos yn yr asesiad eleni, er mwyn dangos y gwahaniaeth go iawn y mae gwaith yr Awdurdod yn ei wneud i fywydau pobl.

11 Mae'r rhan ganol hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am lefel cydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg, ac mae'n rhoi crynodeb o'i waith yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn mynd ati'n rhagweithiol i annog dewis iaith i'w holl staff a defnyddwyr y Gwasanaeth. Hefyd yn y rhan hon, mae crynodeb o'r cynnydd tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb Strategol cyfredol yr Awdurdod.

12 Mae rhannau olaf adroddiad yr asesiad yn cynnwys cyfrif o'r modd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ymrwymiadau dan 'Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau Cymru gyfan' a'r wybodaeth am y dangosyddion perfformiad presennol sy'n gymorth i gymharu'r lefelau gweithgarwch a pherfformiad â'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

13 Mae'r wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd yr adroddiad yn nodi canlyniadau gweithgareddau archwilio neu asesu yn ystod 2018/19, a gwybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu â'r Gwasanaeth i gael rhagor o wybodaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r asesiad hwn yn disgrifio cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2018/19 mewn perthynas â chyflawni ei amcanion llesiant tymor hir. |
| Cyllideb | Ni chanfuwyd dim. |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen gyfun yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod dan y canlynol: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011; a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r goblygiadau i'r nodweddion gwarchodedig yn cael sylw yn yr asesiad drafft. |
| Risgiau | Ni chanfuwyd dim. |